CBAC Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Uned 4: Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

I'w asesu gyntaf o 2024

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Mewnol)

Fersiwn 3 - Hydref 2026



CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Diweddarwyd datganiadau Taflen Farciau'r Ganolfan.	14
3	Tynnwyd y ffurflenni ymgeiswyr a datganiad ac mae'r rhain bellach ar gael dan y tab Dogfennau Allweddol a Deunyddiau Cwrs a 'Taflen Marciau' ar gyfer pob uned.	-

© WJEC CBAC Cyf.

Cynnwys

		Tudalen
UNED 4:		
	Ysgogiadau	5
	Tasg	6
	Cynllun marcio	7
	Mapio	12

© WJEC CBAC Cyf.

LEFEL 3 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL (ASESIAD DI-ARHOLIAD MEWNOL)

UNED 4: DEALL SUT MAE CYFLYRAU CYFFREDIN YN EFFEITHIO AR Y CORFF DYNOL

AMSER: 15 AWR

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR
BYDD GENNYCH CHI GYFANSWM O 15 AWR I GWBLHAU'R DASG HON.

Mae gofyn i chi ysgrifennu erthygl a llunio ffeithlun ar gyflyrau heintus a ffisiolegol penodol ar gyfer cylchgrawn iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i'ch erthygl ymwneud â'r cyflwr ffisiolegol yn ysgogiad 1 ac mae'n rhaid i'ch ffeithlun fod yn gysylltiedig â'r haint yn ysgogiad 2.

Dylech chi dreulio 15 awr ar y dasg hon.
Y nifer mwyaf o eiriau ar gyfer y dasg hon yw 3,000 (gan gynnwys y ffeithlun).
Gallwch chi ddefnyddio'r adnoddau canlynol wrth gwblhau'r dasg hon:

- meddalwedd TGCh
- ysgogiadau.

Gellir defnyddio nodiadau dosbarth. Dylai'r nodiadau fod yn ddim mwy na chwe ochr o bapur A4. Gellir eu hysgrifennu â llaw neu eu paratoi ar brosesydd geiriau. Dylid eu hysgrifennu yng ngeiriau'r ymgeisydd ei hun ac ni ddylent gynnwys atebion wedi'u hysgrifennu ymlaen llaw. Yr athro/aseswr sy'n gyfrifol am adolygu'r nodiadau i sicrhau eu bod yn bodloni'r canllawiau uchod. Rhaid i'r ganolfan gadw'r holl nodiadau sy'n cael eu defnyddio gan yr ymgeisydd.

Caniateir i chi ddefnyddio'r rhyngrwyd wrth gwblhau'r dasg hon.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae'n bwysig eich bod chi'n gweithio'n annibynnol ac yn sicrhau mai eich gwaith chi yn unig, heb gymorth, yw'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu. Bydd angen i chi a'ch athro lofnodi datganiad mai eich gwaith chi yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

Cewch eich cynghori i wirio eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn fanwl ac yn gywir.

© WJEC CBAC Cyf.

Ysgogiad 1: Cyflwr ffisiolegol – Diabetes Math 2

Nifer y bobl â Diabetes yn cynyddu i bron 200,000 yng Nghymru yn 2019

Mae nifer y bobl sydd wedi cael diagnosis o Ddiabetes yng Nghymru wedi cynyddu i bron 200,000.
Cynyddodd y nifer o 191,590 i 194,693 ers y llynedd.

Dywedodd Diabetes UK Cymru fod Diabetes ar 7.4% o'r boblogaeth yng Nghymru – y ganran uchaf yn y DU. Cyfartaledd y DU yw 6.8%.

Amcangyfrifir bod tua 61,000 o bobl yng Nghymru yn byw â diabetes Math 2 ond heb gael diagnosis ohono, sy'n golygu bod Diabetes ar fwy na chwarter miliwn (255,781) o bobl yng Nghymru.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dweud bod tua 60% o oedolion yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew. Er nad pwysau gormodol sy'n achosi pob achos o ddiabetes Math 2, dyma'r ffactor risg unigol mwyaf o ran datblygu'r cyflwr. Gall oedran, hanes y teulu ac ethnigrwydd hefyd gyfrannu at risg unigolyn. Gellid atal neu ohirio llawer o achosion o ddiabetes Math 2 drwy fwyta'n iach, bod yn fwy gweithgar, a chynnal pwysau iach. Dywedodd Diabetes UK Cymru y gall nodi arwyddion cynnar diabetes newid bywydau pobl.

Ffynhonnell
Diabetes UK Cymru

Ysgogiad 2: Cyflwr heintus – Twbercwlosis (TB)

Achosion o TB: Trigolion yn cael cynnig gwasanaeth sgrinio yn Llwynhendy, Caerfyrddin

Ym mis Mai 2019, cafodd achos o dwbercwlosis ei gysylltu â marwolaeth un person. Mae'r haint wedi effeithio ar 29 o bobl ers 2010 a nodwyd bod 80 o bobl eraill wedi dod i gysylltiad ag achosion wedi'u cadarnhau. Nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru y gallai fod mwy o achosion na'r hyn oedd wedi'i nodi.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi anfon llythyrau at y bobl a ddaeth i gysylltiad ag achosion wedi'u cadarnhau yn gofyn iddyn nhw ddod i gael eu sgrinio. Gall hyn arwain at brofion pellach a thriniaeth os oes angen.

Dywedodd Dr Brendan Mason, o Iechyd Cyhoeddus Cymru, mai sgrinio cymunedol oedd y "ffordd orau o reoli'r achosion hyn". Dywedodd fod yr achosion hyn o dwbercwlosis hefyd yn cyd-fynd â newid mewn strategaethau iechyd byd-eang i ganolbwyntio ar gael gwared ar y clefyd yn llwyr erbyn 2035.

Ffynhonnell
Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019

© WJEC CBAC Cyf.

Tasg Uned 4

Mae gofyn i chi ysgrifennu erthygl a llunio ffeithlun ar gyflyrau heintus a ffisiolegol penodol ar gyfer cylchgrawn iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i'r erthygl ymwneud â'r cyflwr ffisiolegol yn ysgogiad 1 ac mae'n rhaid i'ch ffeithlun fod yn gysylltiedig â'r haint yn ysgogiad 2.

Dylech wneud y canlynol yn eich erthygl:

Gan gyfeirio at ysgogiad 1

(a) Esboniwch achosion ac effeithiau posibl y cyflwr y cyfeirir ato yn yr ysgogiad.
Rhaid i'ch ateb gyfeirio at y canlynol:

- achosion posibl y cyflwr
- arwyddion a symptomau
- effeithiau tymor byr ar y corff dynol
- effeithiau tymor hir ar y corff dynol
- effaith ar fywyd bob dydd.

[22 Marc]

Gan gyfeirio at ysgogiad 1

(b) Disgrifiwch y mathau o strategaethau lleihau risgiau sy'n gallu cael eu rhoi ar waith i gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n byw â'r cyflwr y cyfeirir ato yn yr ysgogiad.

[10 Marc]

Gan gyfeirio at ysgogiad 1

(c) Aseswch y math o ofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflwr y cyfeirir ato yn yr ysgogiad.
Dylai eich ymateb gyfeirio at fodelau perthnasol o iechyd a llesiant.

[18 Marc]

Gan gyfeirio at ysgogiad 2

(ch) Lluniwch ffeithlun sy'n amlinellu eich dealltwriaeth chi o'r haint yn ysgogiad 2.

Rhaid i'ch ffeithlun gynnwys cyfeiriad at:

- y math o haint
- sut mae'r haint yn cael ei achosi
- y cylch trosglwyddo ar gyfer yr haint gan gynnwys sut mae'n mynd i mewn i'r corff
- unrhyw niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad i'r haint. [10 marc]

CYFANSWM Y MARCIAU: [60 marc]

© WJEC CBAC Cyf.

Cynllun Marcio Uned 4 ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae disgrifydd y band yn disgrifio lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.

Cyn marcio, dylai aseswyr yn gyntaf ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r anodi, gallwch gymhwyso'r cynllun marcio. Mae dau gam i'r broses hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

Safoni mewnol

Os oes mwy nag un athro/athrawes mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy wefan ddiogel CBAC ar ddiwrnod y canlyniadau.

© WJEC CBAC Cyf.

Cynllun marcio wedi'i gwtogi yw hwn. Mae'r fersiwn cyflawn gyda'r cynnwys dangosol yn rhan ohono i'w gael ar wefan ddiogel CBAC www.wjecservices.co.uk

UNED 4
Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol

(a)	**Gan gyfeirio at ysgogiad 1, esboniwch achosion ac effeithiau posibl y cyflwr y cyfeirir ato yn yr ysgogiad.** **Rhaid i'ch ateb gyfeirio at y canlynol:** • **achosion posibl y cyflwr** • **arwyddion a symptomau** • **effeithiau tymor byr ar y corff dynol** • **effeithiau tymor hir ar y corff dynol** • **effaith ar fywyd bob dydd.** **[22 marc]**
Band	*AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol*
5	**18-22 marc** Mae'r erthygl yn rhoi esboniad gwych sy'n dangos: • gwybodaeth fanwl a thrylwyr o achosion posibl y cyflwr • dealltwriaeth hyderus o effeithiau'r cyflwr ar y corff gan gynnwys arwyddion a symptomau, effeithiau tymor byr a thymor hir ar y corff dynol a'r effaith ar fywyd bob dydd.
4	**14-17 marc** Mae'r erthygl yn rhoi esboniad da iawn sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o achosion posibl y cyflwr • dealltwriaeth gadarn o effeithiau'r cyflwr ar y corff gan gynnwys arwyddion a symptomau, effeithiau tymor byr a thymor hir ar y corff dynol a'r effaith ar fywyd bob dydd.
3	**10-13 marc** Mae'r erthygl yn rhoi esboniad da sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth dda o achosion posibl y cyflwr • dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o effeithiau'r cyflwr ar y corff gan gynnwys arwyddion a symptomau, effeithiau tymor byr a thymor hir ar y corff dynol a'r effaith ar fywyd bob dydd.
2	**6-9 marc** Mae'r erthygl yn rhoi esboniad sylfaenol sy'n dangos: • peth gwybodaeth a dealltwriaeth o achosion posibl y cyflwr • peth dealltwriaeth o effeithiau'r cyflwr ar y corff gan gynnwys arwyddion a symptomau, effeithiau tymor byr a thymor hir ar y corff dynol a'r effaith ar fywyd bob dydd.
1	**1-5 marc** Mae'r erthygl yn rhoi esboniad cyfyngedig sy'n dangos: • fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o achosion posibl y cyflwr • fawr ddim dealltwriaeth o effeithiau'r cyflwr ar y corff gan gynnwys effeithiau tymor byr a thymor hir ar y corff dynol a'r effaith ar fywyd bob dydd.
	0 marc Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

© WJEC CBAC Cyf.

(b)	**Gan gyfeirio at ysgogiad 1, disgrifiwch y mathau o strategaethau lleihau risgiau sy'n gallu cael eu rhoi ar waith i gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n byw â'r cyflyrau y cyfeirir atynt yn yr ysgogiad.** **[10 marc]**
Band	AA1: *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.*
4	**8-10 marc** Mae'r erthygl yn rhoi disgrifiad gwych sy'n: • cyfeirio'n gadarn at yr ysgogiad • dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r mathau o strategaethau lleihau risgiau sy'n gallu cael eu rhoi ar waith i gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n byw â'r cyflwr.
3	**6-7 marc** Mae'r erthygl yn rhoi disgrifiad gwych sy'n: • cyfeirio at yr ysgogiad • dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r mathau o strategaethau lleihau risgiau sy'n gallu cael eu rhoi ar waith i gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n byw â'r cyflwr.
2	**4-5 marc** Mae'r erthygl yn rhoi disgrifiad sylfaenol sy'n: • cyfeirio rhywfaint at yr ysgogiad • dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o'r mathau o strategaethau lleihau risgiau sy'n gallu cael eu rhoi ar waith i gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n byw â'r cyflwr.
1	**1-3 marc** Mae'r erthygl yn rhoi disgrifiad cyfyngedig sy'n: • cyfeirio fawr ddim, os o gwbl, at yr ysgogiad • dangos fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o'r mathau o strategaethau lleihau risgiau sy'n gallu cael eu rhoi ar waith i gefnogi iechyd a llesiant unigolion sy'n byw â'r cyflwr.
	0 marc Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

© WJEC CBAC Cyf.

(c)	**Gan gyfeirio at ysgogiad 1, aseswch y math o ofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflwr y cyfeirir ato yn yr ysgogiad.** **Dylai eich ymateb gyfeirio at fodelau perthnasol o iechyd a llesiant [18 marc]**
Band	*AA3: Dadansoddi a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, ystyried y ffordd y gallant ddylanwadu ar ymarfer, ffurfio barn resymedig a dod i gasgliadau.*
5	**17-18 marc** Mae'r erthygl yn rhoi asesiad gwych sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a thrylwyr o'r gofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflwr ffisiolegol y cyfeirir ato yn yr ysgogiad • barn resymegol a manwl mewn perthynas ag effeithiolrwydd, goblygiadau, pwysigrwydd a pherthnasedd eu hanghenion gofal a chymorth • cyfeiriad gwych at fodelau perthnasol o iechyd a llesiant.
4	**13-16 marc** Mae'r erthygl yn rhoi asesiad da iawn sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r gofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflyrau ffisiolegol y cyfeirir atynt yn yr ysgogiad • barn resymegol gan fwyaf mewn perthynas ag effeithiolrwydd, goblygiadau, pwysigrwydd a pherthnasedd eu hanghenion gofal a chymorth • cyfeiriad da at fodelau perthnasol o iechyd a llesiant.
3	**9-12 marc** Mae'r erthygl yn rhoi asesiad da sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r gofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflyrau ffisiolegol y cyfeirir atynt yn yr ysgogiad • rhywfaint o farn resymegol mewn perthynas ag effeithiolrwydd, goblygiadau, pwysigrwydd a pherthnasedd eu hanghenion gofal a chymorth • cyfeiriad boddhaol at fodelau perthnasol o iechyd a llesiant.
2	**5-8 marc** Mae'r erthygl yn rhoi asesiad sylfaenol sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth glir ar y cyfan o'r gofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflyrau ffisiolegol y cyfeirir atynt yn yr ysgogiad • barn sylfaenol mewn perthynas ag effeithiolrwydd, goblygiadau, pwysigrwydd a pherthnasedd eu hanghenion gofal a chymorth • cyfeiriad sylfaenol at fodelau perthnasol o iechyd a llesiant.
1	**1-4 marc** Mae'r erthygl yn rhoi asesiad cyfyngedig sy' dangos: • peth gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gofal a chymorth y gall fod eu hangen ar unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cylch ehangach pan fyddan nhw'n byw â'r cyflyrau ffisiolegol y cyfeirir atynt yn yr ysgogiad • fawr ddim barn mewn perthynas ag effeithiolrwydd, goblygiadau, pwysigrwydd a pherthnasedd eu hanghenion gofal a chymorth • fawr ddim cyfeiriad at fodelau perthnasol o iechyd a llesiant.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

© WJEC CBAC Cyf.

(ch)	**Gan gyfeirio at ysgogiad 2, lluniwch ffeithlun sy'n amlinellu eich dealltwriaeth o'r haint yn yr ysgogiad.** **Rhaid i'ch ymateb gynnwys gyfeirio at y ganlynol:** • **y math o haint** • **sut mae'r haint yn cael ei achosi** • **y cylch trosglwyddo ar gyfer yr haint gan gynnwys sut mae'n mynd i mewn i'r corff** • **unrhyw niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad i'r haint.** **[10 marc]**
Band	AA1: *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.*
4	**8-10 marc** Mae'r ffeithlun yn rhoi amlinelliad gwych sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae'r haint yn cael ei achosi, y cylch trosglwyddo ar gyfer yr haint, sut mae'n mynd i mewn i'r corff, y math o haint a'r niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad o'r haint.
3	**6-7 marc** Mae'r ffeithlun yn rhoi amlinelliad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae'r haint yn cael ei achosi, y cylch trosglwyddo ar gyfer yr haint, sut mae'n mynd i mewn i'r corff, y math o haint a'r niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad o'r haint.
2	**4-5 marc** Mae'r ffeithlun yn rhoi amlinelliad sylfaenol sy'n dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r haint yn cael ei achosi, y cylch trosglwyddo ar gyfer yr haint, sut mae'n mynd i mewn i'r corff, y math o haint a'r niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad o'r haint.
1	**1-3 marc** Mae'r ffeithlun yn rhoi amlinelliad cyfyngedig sy'n dangos fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae'r haint yn cael ei achosi, y cylch trosglwyddo ar gyfer yr haint, sut mae'n mynd i mewn i'r corff, y math o haint a'r niwed tymor hir a fyddai'n gallu digwydd o ganlyniad o'r haint.
	0 marc Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

© WJEC CBAC Cyf.

Mapio tasgau Uned 4 Asesiad Di-arholiad i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu

Tasg	Cynnwys y fanyleb					Dyraniad marciau			
	Adran					Cyfanswm Marciau	Marciau AA1	Marciau AA2	Marciau AA3
	4.1	4.2	4.3	4.4	4.5				
(a)		(a)	(a)			22	0	22	0
(b)					(b)	10	10	0	0
(c)				(c)		18	0	0	18
(ch)	(ch)					10	10	0	0
Cyfanswm						60	20	22	18

© WJEC CBAC Cyf.